OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 544

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017

## RHAN 5

### Gwrandawiadau

**Y weithdrefn mewn gwrandawiad**

**33.**—(1) Y person penodedig sy'n llywyddu mewn unrhyw wrandawiad, a rhaid iddo bennu'r weithdrefn yn y gwrandawiad, yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn.

(2) Mae gwrandawiad i fod ar ffurf trafodaeth a arweinir gan y person penodedig, ac ni chaniateir croesholi.

(3) Pan fo'r person penodedig yn ystyried bod croesholi yn ofynnol, rhaid i'r person penodedig ystyried (ar ôl ymgynghori â'r apelydd) pa un a ddylid cau'r gwrandawiad a chynnal ymchwiliad yn lle hynny.

(4) Ar ddechrau'r gwrandawiad rhaid i'r person penodedig nodi'r materion y mae'r person penodedig yn gofyn am sylwadau arnynt yn y gwrandawiad.

(5) Caiff yr apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol ac unrhyw berson a wahoddir i gymryd rhan mewn gwrandawiad alw am dystiolaeth.

(6) Caiff y person penodedig ganiatáu i unrhyw berson arall alw am dystiolaeth.

(7) Caiff y person penodedig wrthod caniatáu rhoi tystiolaeth neu gyflwyno tystiolaeth neu wrthod caniatáu cyflwyno unrhyw fater arall y mae'r person penodedig yn ystyried ei fod yn amherthnasol neu'n ailadroddus.

(8) Pan fo'r person penodedig yn gwrthod caniatáu rhoi tystiolaeth lafar, caiff y person sy'n dymuno rhoi'r dystiolaeth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r person penodedig cyn diwedd y gwrandawiad.

(9) Caiff y person penodedig—

(a) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n cymryd rhan mewn gwrandawiad neu sy'n bresennol yno ac sydd, ym marn y person penodedig, yn ymddwyn mewn modd aflonyddgar, ymadael; a

(b) gwrthod caniatáu i'r person hwnnw ddychwelyd; neu

(c) dim ond caniatáu i'r person hwnnw ddychwelyd o dan y fath amodau a bennir gan y person penodedig.

(10) Caiff unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo ymadael â gwrandawiad gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r person penodedig cyn diwedd y gwrandawiad.

(11) Caiff y person penodedig gymryd i ystyriaeth unrhyw sylw ysgrifenedig neu unrhyw ddogfen arall a ddaw i law'r person penodedig oddi wrth unrhyw berson cyn dechrau'r gwrandawiad neu yn ystod y gwrandawiad ar yr amod bod y person penodedig yn datgelu hynny yn y gwrandawiad.

(12) Caiff y person penodedig wahodd unrhyw berson sy'n cymryd rhan yn y gwrandawiad i wneud cyflwyniadau cloi, a rhaid i unrhyw berson sy'n gwneud hynny ddarparu copi ysgrifenedig o'i gyflwyniadau cloi i'r person penodedig cyn diwedd y gwrandawiad.

(13) Caiff y person penodedig ganiatáu i unrhyw berson wneud sylwadau llafar yn y gwrandawiad.

(14) Caiff unrhyw berson sydd â'r hawl i wneud sylwadau llafar neu y caniateir iddo wneud sylwadau llafar mewn gwrandawiad wneud hynny ar ei ran ei hun neu gael ei gynrychioli gan berson arall.